Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Roath Flood Scheme News

Issue 8 // Easter 2015

**Natural Resources Wales** brings together the work of the Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales and Forestry Commission Wales. Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably enhanced, maintained and used, now and in the future.

## Welcome to our eighth newsletter!

**Many homes and businesses in the Roath, Penylan and Newport Road areas are at risk of flooding from the Roath Brook and the River Rhymney. Natural Resources Wales is working with partners and the community to design and deliver a flood scheme.**

**This newsletter aims to keep you informed of the scheme's progress and how the team are taking your feedback forward.**

### Consultation Phases 2014

Natural Resources Wales have been conducting public consultation since May 2014, the table below summarises the main consultation phases held in 2014.

| Phase | Consultation Aims | Consultation Approach |
|---|---|---|
| **Apr-May 2014** | Build scheme awareness and gather information and feedback to influence design principles. | Drop-in meeting, week-long exhibition in Penylan Library, monthly newsletter, consultee workshops and Design Commission for Wales (DCfW) review. |
| **Jun-Aug 2014** | Build scheme awareness and address information gaps to inform design. | Monthly newsletters, Waterloo Gardens Fete, consultee meetings, landowner meetings and DCfW second review. |
| **Sept-Oct 2014** | Inform of design progress and gather feedback on specific design aspects. | Two public drop-in events, week-long exhibition in Penylan Library and monthly newsletter. Consultee workshop, landowner meetings and DCfW third review. |
| **Nov 2014-Jan 2015** | Inform the private stakeholders along Newport Road and residents of Penylan Road of design progress, and discuss the proposed arts trail with local voluntary group Art Flood. | Meetings with land owners and Art Flood.<br><br>Further full review of proposals following on from those consultations to date |

We have reviewed comments, suggestions and sketches received to date as we move forward with the design. A copy of the Consultation Feedback Summary Report published in November 2014 – "we asked, you said, we did" is available on the Natural Resources Wales website via the following link:

http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/media-and-news-centre/newsletters/roath-flood-scheme-newsletter/?lang=en

### The Design Progression

We are in the process of conducting a substantial design and cost review following feedback received. Once completed, we will use the next issue of the Roath Flood Scheme Newsletter to identify any proposed changes and our means of consulting on the changes. We are reviewing the following:

- **Heights /length of the defences.**
  We are considering ways to reduce the height / length and therefore the visual impact of the proposed flood walls. We do however need to balance this with the level of flood risk reduction we can deliver to the area. Some reductions in the height of the flood defences in the upper parts of the gardens may be achieved by changes to river channel and the new Waterloo Road Bridge.

- **Landscape Impacts.**
  We are seeking to further refine the proposed palette of materials (as shown in the visualisations below), and identifying areas for refurbishing or replacing the railings. We are developing planting proposals that are sensitive to the different areas and incorporate information plaques / pieces of art that tell the story of the area's history.

- **The Design in Waterloo Gardens.**
  We are working with Cardiff Council to further modify the approaches to the new footbridge.

- **The Environmental Impact.**
  We are investigating construction methods that will reduce as far as possible the need to remove trees, and identifying further ways to encourage wildlife back to the area.






### What's next?

We will keep you informed of our design progress, and we intend to hold another drop-in session in late Spring (further details will follow in next month's newsletter).

As always if you have any concerns, please get in touch with the team using the Roath email address. If you wish to take a look at any of the previous newsletters or consultation material, please follow the link.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Newyddlen Cynllun Llifogydd Y Rhath

Rhifyn 8 // Pasg 2015

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ein diben yw sicrhau gwella, cynnal a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

## Croeso i'n wythfed newyddlen!

**Mae llawer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd mewn perygl o lifogydd o Nant Lleucu ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i ddylunio a darparu cynllun llifogydd.**

**Nod y newyddlen hon yw rhoi gwybod i chi am gynnydd y cynllun a sut y mae'r tîm yn defnyddio eich adborth.**

### Ymgynghoriad Cyhoeddus 2014

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mis Mai 2014, mae'r tabl isod yn crynhoi prif gyfnodau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2014.

| Cam | Nod yr ymgynghoriad | Dull ymgynghori |
|---|---|---|
| **Ebrill-Mai 2014** | Datblygu ymwybyddiaeth am y cynllun a chasglu gwybodaeth ac adborth i ddylanwadu ar egwyddorion y dyluniad. | Cyfarfod galw heibio, arddangosfa am wythnos yn Llyfrgell Pen-y-lan, newyddlen fisol, gweithdai gyda'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ac adolygiad Comisiwn Dylunio Cymru. |
| **Mehefin-Awst 2014** | Datblygu ymwybyddiaeth am y cynllun a mynd i'r afael â bylchau yn yr wybodaeth er mwyn cyfarwyddo'r cynllun. | Newyddlenni misol, Gŵyl Gerddi Waterloo, cyfarfodydd â'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, cyfarfodydd â thirfeddianwyr ac ail adolygiad Comisiwn Dylunio Cymru. |
| **Medi-Hydref 2014** | Rhoi gwybod am y broses ddylunio a chasglu adborth ar agweddau penodol ar y dyluniad. | Dau ddigwyddiad galw heibio i'r cyhoedd, arddangosfa am wythnos yn Llyfrgell Pen-y-lan a chylchlythyr misol. Gweithdai gyda'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, cyfarfodydd â thirfeddianwyr a thrydydd adolygiad Comisiwn Dylunio Cymru. |
| **Tachwedd 2014 - Ionawr 2015** | Rhoi gwybod i randdeiliaid preifat ar hyd Heol Casnewydd a thrigolion Heol Pen-y-lan am y broses ddylunio, a thrafod y llwybr celfyddydau arfaethedig â grŵp gwirfoddol lleol sef Art Flood. | Cyfarfodydd â thirfeddianwyr ac Art Flood. Adolygiad llawn pellach o'r cynigion yn dilyn yr ymgynghoriadau hyd yn hyn. |

Rydym wedi adolygu'r sylwadau, yr awgrymiadau a'r brasluniau a gafwyd hyd yn hyn wrth i ni symud ymlaen â'r dyluniad. Mae copi o'r Adroddiad Cryno ar Adborth yr Ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014 - "gofynasom, dywedasoch, gwnaethom" ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru trwy ddilyn y ddolen isod:

http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/media-and-news-centre/newsletters/roath-flood-scheme-newsletter/?lang=cy

### Dilyniant y Cynllun

Rydym yn y broses o gynnal adolygiad sylweddol o'r cynllun a'r gost yn dilyn yr adborth a gafwyd. Ar ôl ei gwblhau, byddwn yn defnyddio rhifyn nesaf Newyddlen Cynllun Llifogydd Y Rhath i nodi unrhyw newidiadau arfaethedig a'r modd y byddwn yn ymgynghori ynghylch y newidiadau. Rydym yn adolygu'r canlynol:

- **Uchder / hyd yr amddiffynfeydd.**
  Rydym yn ystyried dulliau i leihau'r uchder / hyd ac o ganlyniad effaith weledol y waliau llifogydd arfaethedig. Fodd bynnag mae angen i ni gydbwyso hyn gyda'r lefel o leihau risg llifogydd y gallwn ei darparu yn yr ardal. Gellid lleihau uchder rhai o'r amddiffynfeydd yn rhannau uchaf y gerddi trwy newid sianel yr afon a Phont newydd Heol Waterloo.

- **Effaith ar y Dirwedd.**
  Rydym yn ceisio mireinio ymhellach y palet o ddeunyddiau arfaethedig (fel y gwelir yn y delweddau isod), a nodi meysydd ar gyfer eu hadnewyddu neu er mwyn gosod rheiliau newydd. Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer plannu sy'n sensitif i'r gwahanol ardaloedd ac yn cynnwys placiau gwybodaeth / darnau celfyddyd sy'n adrodd hanes yr arda.

- **Cynllun Gerddi Waterloo.**
  Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerdydd i wella ymhellach y llwybrau tuag at y bont gerdded newydd.

- **Yr Effaith Amgylcheddol.**
  Rydym yn ymchwilio i'r dulliau adeiladu a fydd yn lleihau, hyd y gellir, yr angen i symud coed, a nodi rhagor o ffyrdd i annog bywyd gwyllt yn ôl i'r arda.





// Opsiynau sydd wedi'u datblygu ar gyfer y waliau

### Beth nesaf?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am gynnydd ein dyluniad, ac rydym yn bwriadu cynnal sesiwn galw heibio arall yn hwyrach yn y Gwanwyn (bydd rhagor o fanylion yn dilyn yn newyddlen mis nesaf).

Fel arfer os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'r tîm gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost y Rhath. Os hoffech weld unrhyw un o'r newyddlenni blaenorol neu'r deunydd ymgynghori, dilynwch y ddolen.



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government